

## **RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 1 Mawrth 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Iau, 4 Mawrth, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 11 Mawrth, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 12 Mawrth, 2021.

**Presennol:** Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd) R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Aled M. Jones, G.O.Jones, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Dim

(10:00am – Hanner Dydd)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2020/21</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21.</li><li>• Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.</li><li>• Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.</li><li>• Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D yr adroddiad.</li><li>• Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad.</li></ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw 2020/21</b>

A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Monitro'r Gyllideb Cyfalaf – Chwarter 3, 2020/21</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn chwarter 3.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Monitro perfformiad Cyllideb Cyfalaf 2020/21.</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 Monitro'r Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2020/21</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd nodi'r canlynol –</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2020/21.</li> <li>• Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020/21.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2020/21</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn a nodi'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 heb nodi unrhyw sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor llawn.</li> <li>• Nodi'r cynnydd yn y terfynau trafodion yn Atodiad 8 (fel y nodwyd ym mhwynt 4 o'r adroddiad).</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn destun cymerdwyaeth y Cyngor Llawn

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2021/22</b> Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taliadau am wasanaethau Teleofal fel y nodir yn Nhabl A yr adroddiad Haen 1 bydd pawb yn talu £49.41. Haen 2 a 3 bydd pawb yn talu £98.42</li> <li>• Taliadau am wasanaethau Teleofal fel y nodir yn Nhabl B yr adroddiad Gwasanaeth a Chynnal a Chadw £117.54 Gwasanaeth yn Unig £75.97 Costau Gosod Untro £47.00</li> <li>• Cyfradd taliadau uniongyrchol ar £11.89 yr awr</li> <li>• Parhau i godi tâl o £10 am weinyddu ceisiadau Bathodyn Glas ac am fathodynau newydd fel</li> </ul>

	<p>yr amlinellir yn yr adroddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu'r ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd i mewn gan gartrefi annibynnol 3% i £35.21</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Gosod ffioedd gofal cymdeithasol a thaliadau dibreswyl ar gyfer 2021/22 yn unol â'r ddeddfwriaeth.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn - Pennu'r Ffi Safonol</b> Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod am y flwyddyn 1 Ebrill, 2021 i 31 Mawrth, 2022 yn cael ei osod ar £786.50 yr wythnos.</li> <li>Gohirio cynyddu'r ffioedd i gost llawn y gwasanaeth am flwyddyn arall, a</li> <li>Bod y ffi llawn a godir fesul preswlydd yr wythnos ar gyfer cartrefi'r Awdurdod yn cael ei osod ar £754.36 yr wythnos.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Gosod y ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 Ffioedd a Thaliadau 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2021/22 fel a amlinellwyd yn y llyfryn a gyflwynwyd.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Gosod lefel y ffioedd a thaliadau ar gyfer

	<b>2021/22 fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>10 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd, fel yr amlinellir yn Adran 3 o Atodiad 1 ac Atodiad 2.</b></li> <li>• <b>Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 9 o Atodiad 1 ac Atodiad 3;</b></li> <li>• <b>Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio tuag at sicrhau balansau cyffredinol o £7.3m ar y lleiaf;</b></li> <li>• <b>Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir hwy yn Adran 7 o Atodiad 1;</b></li> <li>• <b>Argymhell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir o £147.420m a chynnydd o 2.75% yn lefel y Dreth Gyngor yn sgil hynny (£35.91 - Band D) i gyfarfod o'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau a godir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2021;</b></li> <li>• <b>Gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol trwy ddefnyddio'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2021/22, neu drwy wneud cyfraniad i / o arian wrth</b></li> </ul>

	<p>gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;</li> <li>• Cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol;</li> <li>• Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;</li> <li>• Dirprwyo grym i'r Swyddog Adran 151 ryddhau cyllid o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol, sef hyd at £50k ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni cheir cymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k heb gytundeb y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw;</li> <li>• Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn aros ar 35% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer cartrefi gwag.</li> </ul> <p><i>(Bu'r Cyngorydd Ieuan Williams ddatgan diddordeb personol yn yr eitem ac ni gymerodd ran yn y bleidlais yn dilyn hynny).</i></p>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn cwblhau cynigion Cyllideb Refeniw y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2021/22 yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Mae'r Gyllideb Refeniw a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 yn destyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth, 2021.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

	Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cadarnhau ac argymell bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 – 2023/24 fel y mae wedi'i dangos yn Atodiadau 1 a 2 o'r adroddiad.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Yn unol â Gofynion CIPFA a Chyfansoddiad y Cyngor</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn destun Cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>12 Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig Terfynol ar gyfer 2021/22</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151																										
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2021/22 –</b>  <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr> <th style="width: 80%;"></th> <th style="text-align: right; width: 20%;">£</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><b>Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21</b></td> <td style="text-align: right;"><b>4.000m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Adnewyddu/Amnewid Asedau</b></td> <td style="text-align: right;"><b>4.137m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Prosiectau Cyfalaf Untro (Prosiectau Blaenoriaeth)</b></td> <td style="text-align: right;"><b>0.780m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar Gael)</b></td> <td style="text-align: right;"><b>0.325m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif</b></td> <td style="text-align: right;"><b>6.600m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Cyfrif Refeniw Tai</b></td> <td style="text-align: right;"><b>20.313m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Cyfanswm Rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2021/22</b></td> <td style="text-align: right;"><b>36.155m</b></td> </tr> <tr> <td colspan="2"><b>Cyllidir gan –</b></td> </tr> <tr> <td><b>Grant Cyfalaf Cyffredinol</b></td> <td style="text-align: right;"><b>2.163m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Benthyca â Chymorth Cyffredinol</b></td> <td style="text-align: right;"><b>2.158m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Balansau Cyffredinol</b></td> <td style="text-align: right;"><b>0.291m</b></td> </tr> <tr> <td><b>Balansau Cyffredinol (Os oes cyllid digonol ar gael)</b></td> <td style="text-align: right;"><b>0.325m</b></td> </tr> </tbody> </table>		£	<b>Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21</b>	<b>4.000m</b>	<b>Adnewyddu/Amnewid Asedau</b>	<b>4.137m</b>	<b>Prosiectau Cyfalaf Untro (Prosiectau Blaenoriaeth)</b>	<b>0.780m</b>	<b>Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar Gael)</b>	<b>0.325m</b>	<b>Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif</b>	<b>6.600m</b>	<b>Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>20.313m</b>	<b>Cyfanswm Rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2021/22</b>	<b>36.155m</b>	<b>Cyllidir gan –</b>		<b>Grant Cyfalaf Cyffredinol</b>	<b>2.163m</b>	<b>Benthyca â Chymorth Cyffredinol</b>	<b>2.158m</b>	<b>Balansau Cyffredinol</b>	<b>0.291m</b>	<b>Balansau Cyffredinol (Os oes cyllid digonol ar gael)</b>	<b>0.325m</b>
	£																										
<b>Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21</b>	<b>4.000m</b>																										
<b>Adnewyddu/Amnewid Asedau</b>	<b>4.137m</b>																										
<b>Prosiectau Cyfalaf Untro (Prosiectau Blaenoriaeth)</b>	<b>0.780m</b>																										
<b>Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar Gael)</b>	<b>0.325m</b>																										
<b>Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif</b>	<b>6.600m</b>																										
<b>Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>20.313m</b>																										
<b>Cyfanswm Rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2021/22</b>	<b>36.155m</b>																										
<b>Cyllidir gan –</b>																											
<b>Grant Cyfalaf Cyffredinol</b>	<b>2.163m</b>																										
<b>Benthyca â Chymorth Cyffredinol</b>	<b>2.158m</b>																										
<b>Balansau Cyffredinol</b>	<b>0.291m</b>																										
<b>Balansau Cyffredinol (Os oes cyllid digonol ar gael)</b>	<b>0.325m</b>																										

	<b>Benthyca â Chymorth Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif</b>	<b>2.897m</b>
	<b>Benthyca Di-gymorth Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif</b>	<b>0.498m</b>
	<b>CRT wrth gefn a Gwarged yn y Flwyddyn</b>	<b>15.639m</b>
	<b>Benthyca Digefnogaeth CRT</b>	<b>2.000m</b>
	<b>Grantiau Allanol</b>	<b>6.184m</b>
	<b>Cynlluniau a ddygwyd Ymlaen 2020/21 (Grantiau Allanol)</b>	<b>4.000m</b>
	<b>Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22</b>	<b>36.155m</b>
<b>RHESWM AM Y PENDERFYNIAD</b>	<b>Argymell Cyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22</b>	
<b>A OES MODD EI ALW I MEWN?</b>	<b>Amherthnasol. Mae'r Gyllideb Gyfalaf yn destyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth, 2021.</b>	